Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

# Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion



## Ffeithlen Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith

### Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu gwybodaeth am Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Mae'n cynnwys gwybodaeth am beth yw'r Holiadur a'i fuddion i ysgolion a rhanddeiliaid ehangach.

### Cyflwyniad

Mae'r Holiadur yn cael ei ateb gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol bob dwy flynedd, ar yr un pryd ag y cyflwynir Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith i ddysgwyr.

O'i ddefnyddio ar y cyd a'r Arolwg Iechyd a Lles dwyflynyddol, mae'n creu set ddata gynhwysfawr unigryw i archwilio cysylltiadau rhwng polisïau ac ymarfer ysgolion (e.e. arweinyddiaeth ysgol; ethos ysgol; amgylchedd ysgol; dysgu'r cwricwlwm; ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned) a deilliannau iechyd a lles dysgwyr.

Nodwyd bod yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a Holiadur Amgylchedd yr Ysgol yn ffynonellau data allweddol sy'n cynorthwyo ysgolion i ymgorffori Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.

Mae'r Holiadur yn cynnig cipolygon gwerthfawr sy'n mynd y tu hwnt i gasglu data yn syml. Mae ganddo rôl allweddol mewn cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol i wella iechyd a lles dysgwyr trwy wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth.

## Y buddion i ysgolion sy'n ateb yr Holiadur

Mae data'r Holiadur yn galluogi ysgolion i gyflawni'r canlynol:

- **Cynllunio strategol:** Mae data'r Holiadur yn helpu ysgolion i gysoni eu strategaethau iechyd a lles gydag anghenion dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol.
- **Asesu iechyd a lles eu dysgwyr** yng nghyd-destun polisïau ac ymarfer eu hysgol nhw.
- **Meincnodi:** Gall ysgolion gymharu eu canlyniadau â chyfartaleddau cenedlaethol, gan helpu i osod eu perfformiad mewn cyd-destun ac amlygu arfer gorau.
- **Defnyddio data'r Rhwydwaith ar gyfer arolygiadau ysgol.** Mae data'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a data'r Holiadur yn ffynonellau data allweddol sy'n cael eu hargymell ar gyfer arolygiadau Estyn.

## Buddion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach defnyddio data

Mae buddion ehangach data'r Holiadur yn cynnwys:

**Cefnogi a llywio polisïau cenedlaethol, gan gynnwys y dull ysgol gyfan.**
Mae partneriaeth y Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod casgliad data'r Rhwydwaith yn ymgorffori cynnwys i gefnogi anghenion polisi ac ymarfer presennol. Yn fwyaf diweddar, mae'r rhain yn cynnwys y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol; Ysgolion Bro; Hawliau Plant a Balch o'r Mislif Cymru.
Mae data'r Holiadur yn galluogi mesur cynnydd ar lefel ysgol, gyda'r data a nodir yn ffynhonnell allweddol ar gyfer diwygiadau Llywodraeth Cymru i'r cwricwlwm. Mae'r Rhwydwaith wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu data Sicrwydd Ansawdd Cenedlaethol i Rwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles.

- **Hwyluso monitro gweithredu polisïau ysgol ac amlygu arfer arloesol.**
Mae casgliad data'r Rhwydwaith ar bolisïau ac ymarfer lefel ysgol yn galluogi monitro sut mae polisi cenedlaethol yn cael ei weithredu, ymchwilio i effeithiau'r ysgol ar ddeilliannau dysgwyr ac amlygu arfer effeithiol ar lefel yr ysgol sy'n gallu cael ei fireinio, ei werthuso a'i gyflwyno ar draws Cymru.

Mae enghreifftiau o waith a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cynnwys perthnasoedd rhwng polisïau'r ysgol ar ysmygu ac ysmygu, fepio a defnyddio canabis gan ddysgwyr; effeithiau cyfansoddiad a diwylliant yr ysgol ar ddeilliannau iechyd dysgwyr, a rhagfynegyddion gweithgarwch / anweithgarwch corfforol ar lefel ysgol ac unigol. I wylio ein gweminarau, cliciwch yma.

• **Darparu platfform i ddeall y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn well.** Ers 2025, mae'r Rhwydwaith wedi cwmpasu 100% o'r boblogaeth ysgolion uwchradd ac mae wedi ehangu'n llwyddiannus i ysgolion cynradd. Mae'r data hwn yn darparu cipolygon y gellir gweithredu arnynt i effeithiau pontio rhwng ysgolion ar ddeiliannau dysgwyr ac mae'n cefnogi polisïau i wella cyrhaeddiad a deilliannau lles.

## Amserlen casglu data'r Holiadur ar gyfer ysgolion

Mae'r Holiadur yn cael ei ateb gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol bob dwy flynedd, ar yr un pryd ag y mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith yn cael ei roi i ddysgwyr.

Bydd casgliad data Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2025 yn digwydd i ysgolion uwchradd cofrestredig rhwng 15 Medi a 19 Rhagfyr. Bydd adroddiadau'r Rhwydwaith ar yr Holiadur yn cael eu rhyddhau yn ystod tymor yr haf 2026.

Bwriedir cynnal casgliad data ysgolion cynradd yn nhymor yr hydref 2026

## Adnoddau Ychwanegol

Darllenwch Adroddiad Canfyddiadau Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith mewn Ysgolion Uwchradd 2023

Darllenwch wefan Adroddiadau Cenedlaethol y Rhwydwaith.

Darllenwch ein straeon llwyddiant ac astudiaethau achos ysgolion.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, e-bostiwch dîm y Rhwydwaith: shrn@cardiff.ac.uk.